y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning

Rheolwr Prosiectau Cymunedol

Disgrifiad Swydd

Teitl:	Rheolwr Prosiectau Cymunedol
Cyflog:	£22,880 - £28,524 y flwyddyn - yn ddibynnol ar gymhwyster a phrofiad. Cynigir cynllun pensiwn, cynllun diogelu cyflog rhag salwch a chostau teithio.
Telerau:	Cytundeb parhaol - yn ddibynnol ar gyllid a pherfformiad.
Oriau gwaith:	Gweithir wythnos waith o 37.5 awr. Mae oriau gwaith y cwmni wedi ei seilio ar wythnos waith Llun-Gwener ac ar ddiwrnod gwaith 9.00a.m.-5.00p.m.. Fodd bynnag, caniateir hyblygrwydd yn y patrwm gwaith i gyfateb i anghenion y gwaith a bydd disgwyl i'r swyddog weithio oddi allan i'r patrwm arferol o bryd i'w gilydd.
Lleoliad swyddfa:	Lleolir y swydd yn un o ddwy swyddfa'r cwmni, yng Nghastellnewydd Emlyn neu Lanelwy. Caniateir gweithio o adref yn achlysurol yn unol â natur y gwaith.
Atebol i:	Brif Weithredwr y cwmni.
Amcan y swydd:	Gweithredu, rheoli a chefnogi prosiectau cyfredol y cwmni yn y pau cymunedol a chyda mudiadau trydydd sector, ynghyd â datblygu prosiectau newydd mewn partneriaeth â'r Prif Weithredwr.

Dyletswyddau a chyfleoedd

1. Rheoli a datblygu prosiectau cyfredol

Bydd dyletswyddau penodol y swydd yn ddibynnol ar natur y prosiectau mewn llaw. Yn rhan o'r portffolio prosiectau cyfredol mae:

- Estyn Llaw (www.estynllaw.org) – prosiect sy'n cynnig cefnogaeth ac arweiniad i fudiadau trydydd sector ynglŷn â gweithredu'n ddwyieithog a hyrwyddo'r Gymraeg trwy:
    - gynnig cyngor ac arweiniad i fudiadau
    - darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith
    - rhwydweithio a phartneriaid allweddol o fewn y maes
- Cronfa Datblygu Estyn Llaw – cronfa grant i brosiectau arloesol yn y trydydd sector.
- Urddas a Gofal – ffrwd o waith sy'n canolbwyntio ar ansawdd profiadau defnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal gwirfoddol.
- Ma' Dy Gymraeg Di'n Grêt – cynllun sy'n cefnogi mamau ifanc yn y De Orllewin i siarad Cymraeg yn gymdeithasol.
- Prosiect Canolfannau Hamdden Gwynedd – cynllun sy'n cefnogi staff canolfannau hamdden i gefnogi trosglwyddiad iaith yn y teulu.
- Saith dros yr Iaith – prosiect sy'n hybu'r cyhoedd i ddefnyddio eu Cymraeg o fewn y gymuned (prosiect cwsg sydd angen ei adfer yw hwn).

I gynnal y prosiectau uchod disgwylir i'r swyddog fedru gweithredu'r swyddogaethau canlynol yn effeithiol:

- darparu gwaith ymgynghorol,
- cynnal gwaith ymchwil sylfaenol,
- llunio adroddiadau proffesiynol,
- cyflwyno gwybodaeth ar lafar yn raenus,
- cynnal sesiynau hyfforddi,
- rheoli a chydlynu gwaith tîm prosiect,
- cefnogi staff iau yn eu gwaith, a
- rheoli cyllidebau prosiectau.

2. Datblygu syniadau a phrosiectau newydd

Cwmni nad sy'n dosbarthu elw yw Iaith Cyf. sydd hefyd yn elusen gofrestredig. Er hynny, mae hyfywedd y cwmni yn ddibynnol ar ei berfformiad 'masnachol'. O'r herwydd, disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus fedru cyfrannu tuag at lunio a chyflwyno ceisiadau ariannol am waith prosiect priodol ac mi fydd y swyddog yn rhannu cyfrifoldeb am ennill cytundebau gwaith perthnasol i'r cwmni ar y cyd â'r Prif Weithredwr. Ystyrir y swydd yn gyfle da i unigolyn mentrus a brwd sydd eisiau cyfrannu tuag at ddatblygu cynllunio iaith yng Nghymru o fewn sefydliad arloesol.

Yn ogystal ag estyn cyfle i ddatblygu a chyflawni prosiectau corfforaethol mae'r swydd hefyd yn cynnig cyfle i'r deiliad ddatblygu diddordeb neu arbenigedd personol. Bydd y cwmni yn falch o dderbyn gwybodaeth am unrhyw brofiad neu arbenigedd penodol y gallwch gyfrannu i dîm y cwmni.

3. Cyfrannu i'r Tîm

Mae gan IAITH dîm o 4 o ymgynghorwyr profiadol sy'n gweithredu nifer o brosiectau ymchwil a datblygu ynghyd a gwasanaeth addysg a hyfforddiant i ystod eang o gleientiaid yn y sector cyhoeddus. Disgwylir y bydd cyfle i'r ymgeisydd llwyddiannus gydweithio â'r ymgynghorwyr yma o bryd i'w gilydd.

Disgwylir i'r swyddog fedru cynnal cofnodion a gweithdrefnau gwaith priodol y cwmni.

Proffil Swyddog Datblygu

Ystyrir y meini prawf canlynol yn hanfodol (neu'n fanteisiol) ar gyfer y swydd uchod:

Cymwysterau:

- gradd anrhydedd dda mewn pwnc perthnasol
- cymhwyster hyfforddiant (yn fanteisiol)
- cymwysterau proffesiynol eraill (yn fanteisiol).

Sgiliau:

- cywirdeb manwl mewn Cymraeg a Saesneg,
- sgiliau ymgynghorol,
- sgiliau ymchwil sylfaenol,
- sgiliau cyflwyno effeithiol,
- sgiliau hyfforddi (yn fanteisiol),
- sgiliau rheoli gwefan (yn fanteisiol),
- sgiliau rhyngbersonol effeithiol,
- y gallu i weithio a threfnu gwaith yn annibynnol,
- y gallu i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn hwylus,
- defnydd car a thrwydded yrru weithredol.

Gwybodaeth:

- gwybodaeth gyffredinol am y maes polisi a chynllunio iaith yng Nghymru;
- gwybodaeth gyffredinol am ddatblygiadau cyfoes mewn perthynas â datblygu cymunedol a'r trydydd sector.

Agweddau:

- brwdfrydedd dros hyrwyddo'r Gymraeg a datblygu'r defnydd ohoni,
- y gallu i gydweithio'n effeithiol fel rhan o dîm,
- ymlyniad i egwyddorion cydraddoldeb a chyfle cyfartal.

Profiad

- profiad o waith ymchwil/datblygu/ymgynghorol ar lefel ranbarthol neu genedlaethol,
- profiad o weithio mewn corff cyhoeddus neu fudiad gwirfoddol arwyddocaol ar lefel ranbarthol neu genedlaethol,
- profiad o hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg.

Cyflwyno Cais

Gallwch gyflwyno cais trwy yrru CV a llythyr cais sy'n manylu ar eich addasrwydd ar gyfer y swydd at:

Y Prif Weithredwr,
IAITH Cyf.,
Uned 3,
Parc Busnes Aberarad,
Castellnewydd Emlyn,
Sir Gâr,
SA38 9DB.

Dylai'r CV fanylu ar:

- fanylion personol,
- manylion addysgol a chymwysterau,
- swydd bresennol,
- swyddi blaenorol a rhesymau dros adael,
- gweithgarwch gwirfoddol perthnasol,
- manylion am unrhyw drosedd i chi gael eich dyfarnu'n euog ohoni,
- gwybodaeth am gyflwr meddygol,
- lefel cyflog presennol,
- pryd y gallwch ddechrau ar y swydd,
- enw, cyfeiriad a rhif ffôn dau ganolwr.

Dylai'r llythyr cais amlinellu:

- eich rhesymau dros geisio am y swydd
- sut y credwch eich bod yn addas ar gyfer y swydd, ac
- unrhyw wybodaeth berthnasol arall y teimlwch a allai fod o fantais i chi yn eich cais

Dylai eich cais ein cyrraedd erbyn 10.00a.m. ar ddydd Gwener, 30 Medi 2011.

Gallwch gyflwyno ymholiadau pellach drwy ffonio'r Prif Weithredwr ar 01239 711668.